NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Gofynnwn yn garedig i bawb sicrhau bod eu cyfraniad ariannol at gronfa'r adeiladu yn cyrraedd yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd erbyn Medi 27ain fan bellaf. Diolch yn fawr iawn.

Y SULIAU NESAF

Medi 20:
(Yn Neuadd y Pentref)
Croesawu'r Cynhaeaf
mewn cerdd a chân
dan ofal Geraint Wyn Davies
Taflen: Ros Evans

Medi 27:
(Yn Neuadd y Pentref)
Geraint Rees
Llywydd: Wyn Jones
Taflen: Gwilym Huws

Hydref 4:
Oedfa Gymun dan ofal aelodau Llantrisant, Meisgyn, Tonyrefail
Taflen: Gwilym Huws

Hydref 11:
Gwasanaeth Diolchgarwch
Taflen: Dafydd Roberts

Hydref 18:
Y Parchg. Hywel Wyn Richards
Llywydd: Rhiannon Humphreys
Taflen: Ros Evans

Y BANC BWYD A'R CASGLIAD DILLAD

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn trafod y ffordd orau o fwrw ymlaen gyda'r casgliad dillad a'r Banc Bwyd yn ystod cyfnod yr adeiladu. Cewch wybod drwy'r daflen beth gaiff ei benderfynu, ond fe fydd y ddau gasgliad yn parhau. Bydd modd gadael eitemau yn y capel fel arfer heddiw.

HELPU FFOADURIAID

Bydd aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyfarfod Mari McNeill o Cymorth Cristnogol nos yfory, Medi 14eg, i drafod codi arian i helpu ymdrechion CC i roi lloches a chymorth ymarferol i ffoaduriaid. Fe gewch fanylion llawn am hyn ar ôl y cyfarfod er mwyn i ni fel eglwys gael dechrau ar y gwaith pwysig hwn.

TREFNIADAU'R ATGYWEIRIO

Dylai pawb fod wedi derbyn copi o'r cylchlythyr yn nodi'r trefniadau dros gyfnod yr atgyweirio yn y capel. Os na chawsoch un, mae copïau ar gael yn y cyntedd heddiw.

MERCHED Y TABERNACL
Bore Mawrth Medi 15fed
Ymweld â Chastell Caerffili
Cwrdd wrth y brif fynedfa am 11 i gael ein tywys o amgylch y llawr gwaelod yn unig. Wedyn paned mewn caffi cyfagos.

CYLCH CADWGAN
Nos Wener 2 Hydref
Y Ganolfan, Efail Isaf
8.00 pm
Gareth F. Williams
Enillydd 'Llyfr y Flwyddyn' 2015
'Y Busnes o Sgwennu'